Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Tremeirchion

# Neuadd Yr Eglwys

# Tremeirchion

# Sir Ddinbych

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2010**

**gan**

**Mr Eifion R Morgan**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Ⓗ **Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2010: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Pentref bach gwledig yw Tremeirchion rhyw 2 filltir i`r de o Lanelwy, Sir Ddinbych. Lleolir y Cylch yn Neuadd yr Eglwys sy`n agos iawn at yr ysgol gynradd leol. Mae`r adeilad yn cynnwys cyntedd bach sy`n arwain yn uniongyrchol at neuadd fawr olau. Ym man pella`r neuadd ceir cegin fach amgaeëdig lle caiff fwyd ei baratoi. Mae`r cyfleusterau toiled yn ddigonol. Mae`r Cylch yn elwa o ddefnyddio tir yr ysgol a`r gerddi ar gyfer gweithgareddau awyr agored. Mae`r Cylch wedi`i gofrestru ar gyfer uchafswm o 19 o blant.

Daw`r holl blant o`r ardal wledig gan gynnwys y pentrefi cyfagos a phob un yn dod o gartrefi nad ydynt o dan fantais nac anfantais economaidd. Nid oes un plentyn o gefndir ethnig na`r un wedi ei nodi ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae`r Cylch yn croesawu plant ag ADY. Yn ieithyddol, daw`r rhan fwyaf o gartrefi lle caiff Saesneg ei siarad a lleiafrif o gartrefi lle siaredir Cymraeg.

Caiff plant fynediad yn 2½ oed gan adael am y cyfnod nesaf yn eu haddysg yn y mis Medi sy`n dilyn eu penblwydd yn dair oed. Ar hyn o bryd, mae 11 o blant yn mynychu`r Cylch ac mae 3 ohonynt yn dair oed.

Mae`r Cylch ar agor rhwng 12.45 – 3.15pm am bedwar prynhawn yr wythnos (nid Dydd Iau) yn ystod tymhorau`r ysgol.

Mae`r Cylch wedi`i gofrestru gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymru (CSSIW) ac arolygwyd y lleoliad ddiwethaf ganddynt yn 2010.

Dyma arolygiad cyntaf y lleoliad gan Estyn.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella’r lleoliad** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

**Nodweddion da**

- Mae gan y Cylch drefniadau da ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad.
- Mae gan y Cylch ethos gadarnhaol a chynhwysol.
- Mae cysylltiadau da gyda`r ysgol gynradd leol a rhieni.

**Nodweddion digonol**

- Mae`r Cylch yn darparu amrywiaeth addas o brofiadau dysgu ar gyfer y plant.
- Mae`r Cylch yn darparu`r plant â digon o gyfleoedd i ddewis gweithgareddau sy`n eu diddori.
- Mae`r arweinyddiaeth wedi goruchwylio gwelliannau yn y Cylch dros y blynyddoedd diwethaf sydd wedi gwella ansawdd y ddarpariaeth.
- Nid yw`r gweithdrefnau hunanarfarnu yn ddigon manwl.
- Nid yw`r cynllunio yn sicrhau bod tasgau yn cyfateb yn dda â gallu a chyrhaeddiad blaenorol y plant.
- Nid yw cynllunio`r cwricwlwm yn canolbwyntio`n ddigonol ar ddatblygiad cynyddol o fedrau sylfaenol ac allweddol y plant.

### Rhagolygon gwella

- Dros y bedair blynedd ddiwethaf mae`r Cylch wedi gwella`r adeilad sydd wedi effeithio`n gadarnhaol ar yr agwedd hon o`r ddarpariaeth.
- Nid yw`r hunanarfarnu yn cael ei wneud mewn ffordd systematig, ac nid yw`n glir sut mae`r Cylch yn golygu gwella, yn enwedig yn nhermau datblygu`r cwricwlwm.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i’r lleoliad:

A1 ddatblygu gweithdrefnau hunanarfarnu sy`n nodi`n glir y blaenoriaethau ar gyfer gwella;

A2 sicrhau bod tasgau yn cyfateb yn dda â gallu`r plant a`u cyflawniad blaenorol; a

A3 cynllunio i ddatblygu medrau sylfaenol ac allweddol y plant yn gynyddol.

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd Estyn yn monitro’r cynnydd wrth i’r ysgol fynd i afael â’r argymhillion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw’r deilliannau? | |
|---|---|

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth? | Digonol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae`r ymarferwyr yn cydweithio i gynllunio yn seiliedig ar ddeilliannau`r Cyfnod Sylfaen ar gyfer dysgu plant. Er bod nifer o brofiadau dysgu da yn cael eu cynllunio, nid yw`r cynllunio yn nodi bod gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau`r plant yn cael eu datblygu`n gynyddol ac nid yw`r targedau nesaf yn eu dysgu yn cael eu nodi. Mae`r cynllunio`n cynnwys cyfleoedd priodol i`r plant weithio`n annibynnol ac i ddatblygu eu medrau creadigol. Ceir hefyd gyfleoedd perthnasol i`r plant ddysgu gofalu am bethau byw ac i weithio a chwarae tu allan i`r dosbarth. Mae`r cynllunio`n seiliedig ar blant yn cydweithio a chynllunir hyn yn dda er mwyn eu galluogi i ffurfio perthynas dda ac i fod yn oddefgar. Cynllunir achlysuron ar gyfer gweithgareddau annibynnol hefyd. Fodd bynnag, nid yw`r cynllunio bob tro`n llwyddo i ennyn diddordeb pob plentyn.

Mae`r cynllunio yn darparu cyfleoedd i`r plant ddatblygu eu medrau ar draws y cwricwlwm, ond nid yw`r cynllunio yn nodi sut y bydd y medrau yn cael eu datblygu`n gynyddol. Mae gan yr holl blant gyfleoedd i ddefnyddio`r iaith Gymraeg ond nid yw`r cynllunio`n canolbwyntio`n ddigonol ar ddatblygu`r iaith gam wrth gam. Mae`r cynllunio`n cynnwys gweithgareddau sy`n cynorthwyo plant i ddeall a dathlu ychydig o ddiwylliant Cymru fel Dydd Gŵyl Dewi.

Caiff y plant weithgareddau sy`n eu cynorthwyo i ddysgu am ailgylchu wrth iddynt weithio tu allan yn eu gardd.

**Addysgu: Digonol**

Mae gan y staff ddealltwriaeth sylfaenol o ofynion deilliannau`r Cyfnod Sylfaen ar gyfer dysgu plant. Mae`r staff yn cydweithio wrth gynllunio. Fodd bynnag, nid yw`r cynllunio bob tro`n cynnwys gweithgareddau sy`n ddigon heriol i ddiwallu anghenion unigol pob plentyn.

Mae cyflawniad y plant yn cael ei asesu a`i gofnodi`n reolaidd. Fodd bynnag, nid yw canlyniadau`r asesu yn cael eu defnyddio`n ddigonol i gynllunio`r cwricwlwm fel bod y tasgau yn cyfateb yn dda ag anghenion y plant a`u cyrhaeddiadau blaenorol. Caiff rhieni eu hysbysu`n dda o gynnydd eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan y Cylch gynlluniau effeithiol i hyrwyddo iechyd a lles y plant. Mae`r cwricwlwm sy`n cael ei gynllunio yn rhoi cyfleoedd da i ddatblygu synnwyr o chwilfrydedd a synnwyr o syndod a rhyfeddod am y byd o`u cwmpas. Mae`r lleoliad yn gwneud darpariaeth dda ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Mae`r cynllunio yn caniatau`r plant i gymryd cyfrifoldeb, dangos blaengaredd a chydweithio. Ceir darpariaeth dda er mwyn i`r plant wahaniaethu rhwng yr hyn sy`n gywir a`r hyn sy`n anghywir ac i ddatblygu agweddau fel gonestrwydd a pharch.

Mae`r Cylch yn sicrhau bod cymorth broffesiynol ar gael i`r plant oddi wrth wasanaethau arbenigol yn ôl yr angen. Mae`r Cylch yn adrodd bod plant ag ADY yn y gorffennol wedi`u cefnogi`n dda ac wedi cael mynediad llawn i`r cwricwlwm.

Mae gan y Cylch bolisiau a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu plant a`r arweinydd yw`r person sy`n gyfrifol am ddelio ag amddiffyn plant. Mae gweithdrefnau clir yn bodoli sy`n adlewyrchu Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Ceir ethos dda yn y Cylch ac mae`r cynllunio`n sicrhau y caiff yr holl blant hawl gyfartal i bob agwedd o`r cwricwlwm. Mae polisiau a gweithdrefnau priodol mewn lle i hyrwyddo atal a chael gwared ar ymddygiad gormesol ac i sicrhau cyfle cyfartal.

Mae gan y Cylch staff profiadol sydd â chymwysterau da ac mae`r Cylch wedi sicrhau bod digon o adnoddau priodol ar gael i fynd i`r afael â gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae`r adeilad yn groesawgar, yn olau ac yn gynnes a defnyddir yr angylchedd awyr agored yn dda i gefnogi dysgu`r plant.

| Cwestiwn Allweddol 3: | Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae`r arweinyddiaeth,dros y bedair blynedd ddiwethaf, wedi arolygu gwelliannau i`r cyfleusterau yn llwyddiannus gan ddarparu ardaloedd ag adnoddau da ar gyfer dysgu`r plant. Mae gwaith y pwyllgor rheoli wedi bod yn ganolog wrth wneud penderfyniadau a chasglu`r arian er mwyn i hyn i ddigwydd sydd wedi cynnwys ymrwymiad rhieni. Fodd bynnag, nid yw`r cynllunio wedi cynnwys digon o gyfleoedd i ddiwallu anghenion gwahanol y plant yn seiliedig ar eu gallu a`u cyflawniad blaenorol.

Mae blaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys datblygu`r iaith Gymraeg, deillianna u`r Cyfnod Sylaen a mentrau bwyta`n iach wedi eu cynnwys.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae`r hunanarfarnu mewn cyfnod cynnar o ddatblygiad. Mae llawer wedi`i gyflawni dros y bedair blynedd ddiwethaf yn enwedig o ran adeiladau ac adnoddau. Fodd bynnag, nid yw`r gweithdrefnau hunanarfarnu wedi nodi`r cryfderau a`r meysydd i`w gwella yn glir. Nid yw canlyniadau`r gwelliannau wedi`u harfarnu`n effeithiol ac nid yw`r targedau hunanarfarnu yn blaenoriaethu meysydd i`w gwella yn enwedig ym maes datblygu`r cwricwlwm i ddiwallu anghenion y plant.

Ceir cysylltiadau da gyda`r ysgol gynradd leol sy`n hyrwyddo trosglwyddiad y plant i`r cyfnod nesaf yn eu haddysg. Mae`r staff wedi ymgymryd ag hyfforddiant a datblygiad proffesiynol ond nid yw effaith hyfforddiant tebyg bob tro wedi`u harfarnu yn nhermau cynnydd plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y Cylch berthynas dda â rhieni sy`n gefnogol iawn o`r Cylch. Mae gan rieni fynediad hawdd at y staff cyn ac ar ôl sesiynau sy`n darparu gwybodaeth ddefnyddiol i`r staff am unrhyw faterion o bryder. Mae`r polisi drws agored sydd gan y staff yn gymorth i sefydlu ymddiriedaeth a chyfathrebu clir rhyngddynt â phartnerwyr sy`n elwa`r plant.

Mae`r trefniadau trosglwyddo wedi`i sefydlu`n dda. Mae`r Cylch yn defnyddio cyfleusterau`r ysgol yn rheolaidd ac mae tystiolaeth o berthynas waith agos.

Mae`r Cylch yn elwa hefyd o`r gefnogaeth a ddarperir gan athrawes gynghorol yr Awdurdod Lleol a Mudiad Ysgolion Meithrin. Mae cysylltiadau tebyg yn darparu`r Cylch â chyngor ac adnoddau gwerthfawr.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Defnyddir adnoddau yn briodol i gefnogi dysgu`r plant. Mae`r cyfleusterau awyr agored yn darparu`r plant â phrofiadau gwerthfawr ac fe`u defnyddir yn rheolaidd. Nid yw effaith yr adnoddau newydd ar ddysgu ac addysgu yn cael eu harfarnu yn rheolaidd ac nid yw`r Cylch bob tro yn ymgymryd â chynllunio ar gyfer pa adnoddau sydd angen yn y dyfodol fel rhan o`i strategaeth hunanarfanu.

Drwyddi draw, gan ystyried y gwelliannau a wnaed a`r adnoddau a phrynwyd dros y blynyddoedd diwethaf, mae`r Cylch yn rhoi gwerth da am arian. Mae`r Cylch wedi defnyddio`i adnoddau ei hun yn dda dros y 4 blynedd ddiwethaf.

# Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

Mae pob plentyn yn hapus yn y lleoliad ac yn mwynhau eu profiadau.

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Un holiadur cafodd ei gwblhau a`i dderbyn gan Estyn o fewn yr amser a nodwyd. Roedd yr ymateb yn nodi graddfa uchel o foddhad â`r Cylch.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)